

VYRNWY FRANKTON GREEN GEN CYMRU

Llyfryn yr ymgynghoriad statudol

Cysylltu ynni adnewyddadwy
â chartrefi a busnesau



Cynnwys

Cyflwyniad	03
Amdanom ni	04
Rhwydwaith grid newydd i gefnogi cadernid, buddsoddiad lleol a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd	06
Pam fod angen y cysylltiad	08
Ein cynigion ym Mhowys a Swydd Amwythig	09
Y broses gynllunio	10
Datblygu aliniad y llwybr	12
Trosolwg o aliniad y llwybr	14
Adran 1	16
Adran 2	18
Adran 3	20
Adran 4	22
Adran 5	24
Dyluniad y peilonau –yr hyn rydym ni'n ei adeiladu	26
Adeiladu	28
Ffiniau'r prosiect	30
Darparu adborth	32
Gwybodaeth i gefnogi'r ymgynghoriad	34
Camau nesaf	35



Cyflwyniad

Mae Green GEN Cymru yn cynnig cysylltiad 132 kV newydd i gysylltu parciau ynni Canolbarth Cymru â'r rhwydwaith trydan cenedlaethol.

Mae prosiect Vyrnwy Frankton yn cynnwys is-orsaf gasglu Grug y Mynydd ger Cefn Coch ym Mhowys, tua 4.8km o gebl tanddaearol a chompownd pen selio, tua 45km newydd o linell uwchben a gorsaf gyfnewid i gysylltu â'r rhwydwaith trydan cenedlaethol ger Lower Frankton, Swydd Amwythig.

Mae angen y cysylltiad newydd hwn i ychwanegu capasiti at y rhwydwaith lleol, gan ddarparu'r seilwaith angenrheidiol i gysylltu ynni adnewyddadwy â chartrefi a busnesau. Gallai hefyd helpu i gefnogi'r gwaith o gyflwyno systemau gwresogi trydan a cherbydau trydan, gan helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Dylanwadwyd ar ddyluniad y cysylltiad gan adborth i'n hymgyngoriad cyntaf yn 2023 gan gymunedau lleol a rhanddeiliaid, mewnbwn gan ymgynghoreion arbenigol, asesiad amgylcheddol a gofynion technegol.

Gallwch chi ddylanwadu ar ddyluniad y cysylltiad o hyd – rydym ni'n gofyn am adborth er mwyn i ni allu parhau i edrych ar ffyrdd o leihau'r effeithiau.

Cynhelir ein hymgyngoriad rhwng 19 Chwefror ac 16 Ebrill 2025.



Ymgynghoriad statudol yw hwn – rydym yn rhagweld mai hwn fydd ein hymgyngoriad llwybr cyfan olaf ar y prosiect. Mae'n bwysig eich bod yn cymryd rhan os oes gwybodaeth yr ydych am i ni ei hystyried.

Yn y llyfryn hwn gallwch weld sut rydym ni wedi ystyried adborth wrth ddatblygu aliniad y llwybr ar gyfer y cysylltiad newydd, a sut allwch chi rannu eich adborth i siapio'r cynigion ymhellach.

Rydym ni'n edrych ymlaen at dderbyn eich sylwadau.

Amdanom ni

Mae Green GEN Cymru yn gweithio i ddatblygu rhwydwaith trydan cryfach a mwy gwydn – gan ddsbarthu ynni glân a gwyrdd i gartrefi, ysbytai, ysgolion, busnesau a chymunedau.



Fel Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu Annibynnol (IDNO), nod rhwydwaith arfaethedig Green GEN Cymru yw datgloi potensial ynni ein gwlad a chefnogi, cyflymu a galluogi'r gwaith o bontio i sero net. Yn ogystal, mae angen seilwaith grid newydd i gryfhau gwytnwch ynni, i ychwanegu capasiti at rwydweithiau lleol, a helpu i baratoi'r ffordd ar gyfer cyflwyno cerbydau trydan a gwresogi gwyrdd yn eang.

Mae trwydded IDNO yn ein galluogi i weithredu rhwydweithiau dosbarthu trydan, gan gefnogi'r galw cynyddol am ynni adnewyddadwy yng Nghymru a Lloegr, yn genedlaethol ac yn lleol. Fel busnes rheoledig, gall ein rhwydwaith dosbarthu trydan hefyd ganiatáu cysylltiad uniongyrchol ar gyfer defnyddwyr ynni fel busnesau ac adeiladau cyhoeddus, a chynhyrchwyr ynni newydd fel prosiectau cymunedol a phrosiectau adnewyddadwy eraill.


Rydym ni'n chwarae rhan allweddol o ran datblygu rhwydwaith dosbarthu cadarn a dibynadwy a fydd yn gallu helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng ynni, yr argyfwng hinsawdd â'r argyfwng costau byw, gan rymuso cymunedau gwledig drwy leihau'r pwysau ar y grid presennol.

Rydym ni wedi ymrwymo i weithio'n agos gyda chymunedau a rhanddeiliaid wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau, er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf a'r effeithiau lleiaf i bobl leol.

Mae ychwanegu capasiti grid sydd ei angen yn golygu:



Cynyddu cynhyrchiant adnewyddadwy, lleihau'r defnydd o danwydd ffosil




Creu seilwaith grid newydd i gysylltu trydan i gartrefi a busnesau



Gweithredu ar frys i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd

Cysylltiad nodweddiadol 132kV ar beilonau dur.



Rhwydwaith grid newydd i gefnogi cadernid, buddsoddiad lleol a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd

Mae'r newid yn yr hinsawdd eisoes yn bygwth bywoliaeth pobl, tirweddau a bywyd gwyllt.

Mae heriau newid yn yr hinsawdd yn cael eu cydnabod yn helaeth gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth San Steffan, a'r awdurdodau lleol ym Mhowys a Swydd Amwythig. Mae'r ddau gyngor wedi adrodd bod effeithiau newid yn yr hinsawdd eisoes yn cael eu gweld yn y siroedd.

Mae angen i bob un ohonom ni weithredu ar frys i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. O'r llywodraeth, yr awdurdodau lleol, y cymunedau a'r buddsoddwyr a fydd yn darparu'r seilwaith a'r gwasanaethau i leihau allyriadau.


Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i sicrhau bod yr hyn sy'n cyfateb i 100% o'r galw am drydan yng Nghymru yn dod o ffynonellau ynni adnewyddadwy erbyn 2035. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwmo i ddyblu capasiti gwynt ar y tir erbyn 2030.

Ar yr un pryd, bydd y galw am drydan yn cynyddu'n sylweddol wrth i'r genedl ddefnyddio trydan ar gyfer prosesau diwydiannol, i wresogi cartrefi ac adeiladau, ac i wefru cerbydau domestig a masnachol. Mae angen ynni adnewyddadwy arnom yn gyflym ac yn effeithlon i ateb y galw hwn.

Ac eto, un o'r rhwystrau i gysylltu ynni adnewyddadwy newydd yw diffyg seilwaith grid addas. Er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, mae angen i ni gysylltu ynni glân yn gyflym ac yn effeithlon.

Mae Green GEN Cymru yn datblygu seilwaith grid newydd i ddatgloi ynni cynaliadwy a'i gysylltu â chartrefi, ysgolion, ysbytai a busnesau.

Ym Mhowys a Swydd Amwythig, gallai'r cysylltiad newydd hefyd ddod yn rhan o rwydwaith mwy cydnerth ar gyfer y rhanbarth – gan greu capasiti i gefnogi buddsoddiad lleol a darparu ar gyfer dyfodol lle mae pob un ohonom yn defnyddio mwy o drydan. Mae ganddo'r potensial i greu sgiliau a swyddi newydd, yn genedlaethol ac yn lleol. A bydd yn cefnogi mabwysiadu technolegau carbon isel yn ein cartrefi a'n busnesau, fel gwresogi trydan a phwyntiau gwefru ar gyfer cerbydau domestig ac amaethyddol.



**Cyngor Sir Powys – Strategaeth
ar gyfer Newid Hinsawdd –
Powys Positif-net 2021-2030**



“Rydym yn wynebu argyfwng hinsawdd. Fel Cyngor mae angen i ni weithredu nawr i leihau allyriadau carbon uniongyrchol ac anuniongyrchol i sero net. Mae angen i ni hefyd baratoi ac addasu i ymdrin ag effeithiau newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol drwy sicrhau ein bod ni fel Sir yn medru gwrthsefyll yr hinsawdd. I gyflawni hyn, dros y degawd nesaf, byddwn yn ailfeddwl yn radical sut rydym yn byw, yn gweithio, yn dysgu, yn chwarae ac yn buddsoddi yn y sir. Rydym hefyd angen gweithredu, nid yn unig ar lefel leol ond yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.”

**Strategaeth Ynni
Canolbarth Cymru**



“Ein gweledigaeth ar gyfer Canolbarth Cymru yw: Cyflawni system ynni carbon sero net sy'n sicrhau manteision cymdeithasol ac economaidd, sy'n dileu tlogi tanwydd, sy'n cysylltu Canolbarth Cymru'n well â gweddill y DU, ac sy'n cyfrannu at ddatgarboneiddio ehangach yn y DU.”

Pam fod angen y cysylltiad

Bydd angen mwy o gapasiti grid i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, i gysylltu prosiectau ynni adnewyddadwy a phrosiectau cymunedol newydd, i greu ac ehangu busnesau, ac i drydaneiddio ein systemau gwresogi a thrafnidiaeth. Mae'r rhain yn heriau rydym ni'n eu hwynebu - heriau y mae angen mynd i'r afael â nhw ar frys, a heriau rydym ni'n ceisio helpu i fynd i'r afael â nhw.

Mae parciau ynni newydd wedi'u cynnig yng nghanolbarth Cymru, ond nid oes gan y rhwydwaith trydan presennol ym Mhowys a Swydd Amwythig y capasiti i'w cysylltu.

Fel Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu Annibynnol (IDNO), rôl Green GEN Cymru yw darparu cysylltiad ar gyfer cynhyrchwyr ynni a defnyddwyr.

Heb gysylltiad, ni all yr ynni adnewyddadwy a gynhyrchir gan y parciau ynni fod ar gael i gymunedau a busnesau, yn genedlaethol ac yn lleol.

Os na fyddwn yn uwchraddio'r rhwydwaith trydan yn gyflym, mae perygl y byddwn yn methu cyrraedd targedau adnewyddadwy ac yn methu â mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.



Ein cynigion ym Mhowys a Swydd Amwythig

Mae'r Prosiect yn cynnwys:

- Is-orsaf gasglu 132 kV newydd ger Cefn Coch, Powys, a elwir yn is-orsaf Grug y Mynydd
- Tua 4.8km o gebl tanddaearol o is-orsaf Grug y Mynydd trwy Barc Ynni Arfaethedig Llyn Lort i gompownd selio pen cebl yng Nghors y Carreg
- Byddai compownd selio pen cebl Cors y Carreg yn galluogi pontio rhwng ceblau tanddaearol a dargludyddion uwchben

- Tua 45km o linell newydd uwchben a gynhelir ar beilonau rhwylog dur L7(c) (uchder cyfartalog o 28.5m) o gompownd selio pen cebl yng Nghors y Carreg i orsaf gyfnewid newydd
- Gorsaf gyfnewid ger Lower Frankton, Swydd Amwythig sy'n caniatáu i'r pŵer gael ei ynysu o is-orsaf posib newydd sy'n cael ei datblygu gan y Grid Cenedlaethol i gysylltu â'r system drawsyrur trydan cenedlaethol 400kV bresennol
- Tir y bydd ei angen ar gyfer mesurau lliniaru amgylcheddol, iawndal a gwella

Yn ogystal â'r seilwaith parhaol, byddai angen tir dros dro hefyd ar gyfer gweithgareddau adeiladu, gan gynnwys, er enghraifft, manau gweithio ar gyfer offer a pheiriannau adeiladu, swyddfeydd safle, lles, storio a mynediad dros dro ar gyfer gwaith adeiladu.

Byddai angen dargyfeiriadau a / neu addasiadau o gyfleustodau trydydd parti hefyd i hwyluso'r gwaith o adeiladu'r Prosiect.

Mae'r dyluniad yn cynnwys peilonau gydag uchder cyfartalog o 28.5m gyda'r pedair coes byddai'r ôl troed mwyaf bod yn 12.5 x 12.5m. Dyma'r peilonau delltwaith lleiaf sydd ar gael i ni i drosglwyddo'r cyfanswm pŵer sy'n cael ei gynhyrchu. Maent yn fyrrach ac yn llai swmpus na'r cysylltiad blaenorol a gynhigiwyd gan y National Grid yn 2014.

Ynghyd â chysylltu ynni adnewyddadwy yn gyflym ac yn effeithlon â'r grid, gallai ein prosiect hefyd gyfrannu at rwydwaith mwy gwydn a dibynadwy ar gyfer y rhanbarth. Drwy ychwanegu capasiti ychwanegol, mae gan brosiect Vyrnwy Frankton y potensial i ddenu buddsoddiad busnes i'r ardal, gan gefnogi'r gwaith o greu swyddi a sgiliau.

Mae y Grid Cenedlaethol wedi gweithio gyda ni i nodi ardal lle gallent adeiladu is-orsaf 400 kV newydd a fyddai'n hwyluso ein cysylltiad â'r grid. O fewn yr ardal a nodwyd, rydym yn rhagweld y bydd y Grid Cenedlaethol yn datblygu cynlluniau ar gyfer yr is-orsaf 400 kV arfaethedig, ac ar wahân, byddwn yn datblygu ein gorsaf gyfnewid 132 kV arfaethedig.

Rydym wedi ystyried y maes hwn wrth ddylunio ar gyfer aliniad y llwybr ar gyfer cysylltiad ac yn yr asesiad amgylcheddol rhagarweiniol. Bydd y Grid Cenedlaethol yn datblygu ei gynlluniau ar gyfer yr is-orsaf, gan gynnwys unrhyw ofynion ar gyfer ymgynghori ac asesu ar wahân i Green GEN Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am brosiect y Grid Cenedlaethol, ewch i: nationalgrid.com/lower-frankton

Mwy o wybodaeth

Gallwch ganfod mwy o wybodaeth am aliniad y llwybr ar gyfer y cysylltiad o dudalen 14 ymlaen.





Y broses gynllunio

Mae llinellau trydan foltedd uchel newydd sy'n hirach na 2km, ac wedi'u lleoli'n rhannol neu'n gyfan gwbl yn Lloegr, yn cael eu cydnabod fel Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP) o dan Ddeddf Cynllunio 2008.

Mae'r broses hon yn mynnu bod ceisiadau am gydsyniad datblygu yn cael eu penderfynu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogeled Ynni a Sero Net, yn hytrach na chan yr awdurdod cynllunio lleol (e.e. cyngor sir). Mae angen Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) ar ddatblygwyr Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol cyn y gellir adeiladu'r cynigion.

Ar sail ein gwaith a'n hymgyngoriad hyd yma, rydym ni'n rhagweld y bydd y Prosiect yn cynnwys llinell uwchben sy'n hirach na 2km o hyd, ac felly bydd angen DCO arnom ni.

Pan fydd ein cynigion yn cael eu cwblhau'n derfynol ar ôl ymgynghori, byddwn yn gwneud cais am DCO i'r Arolygiaeth Gynllunio. Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn penodi Awdurdod Archwilio i archwilio'r cais am DCO ac yn gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol sy'n gyfrifol am benderfynu ar y cais. Ar gyfer ein prosiect, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogeled Ynni a Sero Net fyddai hwn.

Bydd y cais am DCO yn cael ei benderfynu yn unol â'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol sy'n nodi amcanion a pholisïau Llywodraeth y DU ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol newydd. Mae dau Ddatganiad Polisi Cenedlaethol sy'n berthnasol i'n gwaith:

- EN-1 yw'r datganiad cyffredinol sy'n egluro'r angen am seilwaith ynni newydd; ac
- EN-5 sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu seilwaith rhwydwaith trydan o arwyddocâd cenedlaethol.

Mae ymgynghoriad statudol yn rhan o'r broses o gael DCO ar gyfer Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol. Mae'n gyfle i bobl adolygu a rhoi sylwadau ar gynigion manwl ar gyfer DCO. Mae'r cais am DCO yn cael ei ystyried gan yr Arolygiaeth Gynllunio ac mae'n gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol, sy'n penderfynu a ddylid rhoi cydsyniad datblygu.

Mae'r broses gynllunio yn rhoi rhagor o gyfleoedd i bobl gyflwyno eu sylwadau i'r cyrff sy'n penderfynu er mwyn gallu ystyried y rhain ochr yn ochr â'n ceisiadau.

Rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am y broses gynllunio ar gyfer prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol ar gael yn: <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/application-process/the-process/>



Datblygu aliniad y llwybr

Eich adborth

Fe wnaethom gynnal ymgynghoriad anstatudol yn ystod hydref 2023. Ers hynny, rydym ni wedi adolygu'r hyn rydych chi wedi'i ddweud ac mae adborth gan gymunedau lleol a rhanddeiliaid wedi dylanwadu ar y cysylltiad, ynghyd ag astudiaethau amgylcheddol a mewnbwn gan ymgynghoreion arbenigol.

Fe wnaethoch chi sôn am arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol sylweddol yr ardal, yn enwedig Mathrafal – rydym ni wedi symud y cysylltiad ymhellach i ffwrdd o'r ardal hon.

Rydym wedi ystyried yn ofalus yr ardaloedd y dywedasoed eu bod yn bwysig ar gyfer twristiaeth a hamdden – mae'r llwybr wedi'i gynllunio i gadw'r effeithiau ar y rhain mor isel ag y gallwn, gan gydbwysu'r effeithiau ar y dirwedd a'r amgylchedd.

Roeddech chi eisiau i ni feddwl am yr effeithiau ar gymunedau – rydym ni wedi ystyried yn ofalus y golygfeydd o bentrefi a thuag at bentrefi wrth ddylunio'r cysylltiad.

I'r graddau mwyaf posib, rydym ni wedi defnyddio coetir a siâp naturiol y dirwedd i helpu i leihau'r effeithiau gweledol posib ar gymunedau.

Darganfod mwy

Gweler aliniad llawn y llwybr ar dudalennau 14 i 25



Ffactorau eraill

Yn ogystal â'r adborth a gafwyd hyd yma, rhaid i ni hefyd ystyried y canlynol, sydd hefyd yn dylanwadu ar aliniad y llwybr:

- **Tirwedd:** gwedd y dirwedd, gan gynnwys golygfeydd i'r ardal ac oddi yno
- **Ffactorau economaidd-gymdeithasol:** gan gynnwys twristiaeth a gweithgareddau eraill, fel amaethyddiaeth
- **Rhwymedigaethau a rheoliadau:** canllawiau cynllunio cenedlaethol a rhanbarthol a'r gyfraith, sy'n cynnwys gofynion statudol a osodwyd arnom wrth weithredu IDNO
- **Technegol:** gwneud yn siŵr y bydd y cysylltiad yn gweithio'n ddiogel
- **Ecoleg:** fel rhywogaethau planhigion ac anifeiliaid pwysig
- **Treftadaeth ddiwylliannol:** ardaloedd o arwyddocâd hanesyddol, fel safleoedd archeolegol
- **Cost:** gwneud yn siŵr y bydd y cysylltiad yn gost-effeithiol i'w adeiladu a'i weithredu. Yn unol â gofynion Ofgem i helpu i gadw biliau trydan defnyddwyr mor isel â phosibl

Mae aliniad y llwybr wedi'i gynllunio'n fanwl iawn ac mae'n agored i'w newid o hyd.



Darganfod mwy

Mae ein gwefan yn cynnwys map rhyngweithiol a delweddau o olygfeydd. Cliciwch ar www.greengenvyrwyfrankton.com i gael mwy o fanylion.

Trosolwg o aliniad y llwybr

Yn dilyn rownd gyntaf yr ymgynghoriad, fe wnaethom adolygu'r llwybr a oedd yn cael ei ffafrio gennym ar sail yr adborth a ddaeth i law a'n hasesiadau pellach ein hunain.

Mae aliniad drafft y llwybr yn ystyried yr adborth a gawsom gan gymunedau a rhanddeiliaid, ac mae'n cynnwys ystyriaethau bioamrywiaeth, y dirwedd a'r golygfeydd, treftadaeth ddiwylliannol, coetiroedd, perygl llifogydd, daeareg a phriddoedd, defnyddiau tir eraill, ac anghenion technegol.

Mae manylion am sut rydym wedi ymateb i adborth wedi'u cynnwys ym mhob adran.

Bydd y dyluniad manylach yn rhoi syniad llawer gwell i bobl o sut gallai'r cysylltiad edrych o ble maen nhw'n byw.

Mae ein cynigion hefyd yn cynnwys yr ardaloedd o dir y byddai eu hangen arnom i adeiladu'r cysylltiad, fel ffyrdd mynediad a chompowndau gwaith.

Mwy o wybodaeth









Rydym yn gofyn am sylwadau ar ein holl gynigion, gan gynnwys:

- Yr is-orsaf gasglu (Crug y Mynydd) ger Cefn Coch
- Y rhan tanddaearol drwy barc ynni Llan Fawr a chompownd selio pen cebl
- Aliniad y llwybr, gan gynnwys lleoliadau peilonau
- Cysylltiad ag is-orsaf posib y National Grid yn Lower Frankton
- Yr ardaloedd sydd eu hangen ar gyfer gwaith adeiladu, fel ffyrdd mynediad a chompowndau gwaith







Gweler tudalen 32 am fanylion ynghylch sut i roi adborth.


Trosolwg

Llwybr a Ffefrir

-  Terfynau corchymyn arfaethedig
-  Lleoliad arfaethedig y peilonau
-  Llinell ganol arfaethedig y peilonau
-  Lleoliad posibl ar gyfer Is-orsaf y Grid Cenedlaethol, Gorsaf Gyfnewid GGC, Ardaloedd Adeiladu a Gwaith Dros Dro
-  Is-orsaf Casglu Grug y Mynydd, compwndiau adeiladu a mannau gwaith dros dro
-  Llwybro ceblau tanddaearol trwy'r Parc Ynni arfaethedig Llyn Lort
-  Compwnd selio pen cebl
-  Ardal ddraenio bosibl

Adrannau Llwybr

-  **Adran 1:**
Cefn Coch i Langynyw
-  **Adran 2:**
Llangynyw i Feifod
-  **Adran 3:**
Meifod i Lansantffraid-ym-Mechain
-  **Adran 4:**
Llansantffraid-ym-Mechain i Lanymynech
-  **Adran 5:**
Llanymynech i Lower Frankton
-  Coridor y Llwybr a Ffafiwyd yn Flaenorol



Adran 1: Cefn Coch i Langynyw

(gan gynnwys is-orsaf gasglu a chompownd selio pen cebl)

Mae'r ardal hon yn dechrau ar ucheldir amaethyddol agored, cyn symud i iseldir dyffryn glannau Afon Banw. Mae Afon Banw ac Afon Einion yn llifo o fewn y dyffryn ac yn cydgyfarfod ym Mhont Neuadd. Mae tirwedd y dyffryn yn cynnwys nodweddion eraill, gan gynnwys pentrefi, safleoedd gwyliau, seilwaith a mwy o goed o'i gymharu â'r ucheldiroedd. Ystyriwyd yr holl nodweddion hyn wrth ddatblygu'r aliniad.

Rhagor o wybodaeth

Edrychwch ar y llwybr ar ein gwefan



Eich adborth mewn perthynas â'r ardal hon

Yn yr ardal hon dywedasoch y dylid ystyried tirwedd y dyffryn yn ofalus a hefyd bod yr ardal honno'n bwysig i fywyd gwylt, fel ystumod ac adar.

Gofynasoch i ni barhau i ystyried coetir hynafol yn yr ardal, a meddwl yn ofalus am leoliad eiddo a busnesau gwyliau ledled yr ardal hon.

Nododd pobl hefyd gynigion Cyfoeth Naturiol Cymru i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd yng Nghymru yn seiliedig ar Dirwedd Genedlaethol bresennol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, a gofynnwyd a fyddai hyn yn cael ei ystyried wrth ddatblygu'r cysylltiad.

Is-orsaf gasglu a chompownd selio pen cebl

Mewn ymateb i arolygon pellach a gwaith dylunio manylach ers yr ymgynghoriad anstatudol mae Green GEN Cymru wedi nodi ardal lai ar gyfer yr is-orsaf gasglu o fewn yr ardal leoli ehangach. Mae'r ardal a nodwyd o fewn tirwedd lle mae tyrbinau gwynt eisoes ac mae'n bosibl ei bod yn fwy hygyrch na rhannau eraill o'r ardal chwilio. Mae digon o le hefyd i ganiatáu ar gyfer adeiladu'r is-orsaf a darparu cyfleoedd ar gyfer lliniaru tirwedd a bioamrywiaeth.

Aliniad y llwybr

Mae'r aliniad wedi cael ei ddatblygu o fewn y llwybr a nodwyd yn flaenorol a oedd eisoes wedi ystyried cyfleoedd i gadw'r effeithiau mor isel â phosibl ar eiddo unigol, golygfeydd o'r dyffryn a meysydd carafanau.

Mae'r aliniad mewn cyfres o rannau syth, a oedd yn lleihau'r angen am 'dyrau onglog'. Mae tyrau onglog yn beilonau a ddefnyddir pan fydd cysylltiad yn newid cyfeiriad, ac maent fel arfer yn fwy swmpus na pheilonau safonol gan eu bod dan fwy o densiwn o'r gwifrau sy'n cael eu cludo.






Mae'r newidiadau cyfeiriad yn gwneud defnydd o'r tirwedd a choetir i leihau effeithiau gweledol posibl y llinell. Mae lleoliadau peilonau hefyd wedi cael eu dewis i gyfyngu ar yr effeithiau ar groesfannau afonydd a ffyrdd yn yr ardal hon, yn ogystal ag eiddo a busnesau, cymaint â phosibl. Mae'r rhyngweithio â llinellau trydan polion pren 11kV presennol hefyd wedi cael ei ystyried yn ofalus.

I'r ardal i'r gorllewin o'r A458, mae'r aliniad wedi cael ei ddatblygu i ddefnyddio coed i helpu i sgrinio neu ddarparu cefnlen i'r cysylltiad. Mae'r parciau carafanau yma wedi cael eu hystyried yn ofalus wrth lwybro, gan gydbwysu'r effeithiau posibl ar y coetir hynafol ger Afon Einion.









Mae nodweddion amgylcheddol eraill – fel bywyd gwylt a threftadaeth – hefyd wedi cael eu hystyried mewn perthynas â lleoliadau arfaethedig ar gyfer peilonau ac ardaloedd gosod sydd eu hangen yn ystod y gwaith adeiladu.


Rydym yn ymwybodol bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgynghori ar gynigion i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd yng Nghymru yn seiliedig ar Fryniau Clwyd a Pharc Cenedlaethol Dyffryn Dyfrdwy. Mae ardal chwilio wedi'i nodi sy'n ymestyn yn agos at ran o Ddyffryn Efyrrwy. Mae Parciau Cenedlaethol a'u lleoliadau yn ystyriaethau pwysig wrth lwybro llinellau uwchben. Gan fod y cynnig ar gyfer Parc Cenedlaethol Gogledd Ddwyrain Cymru yn dal i fynd rhagddo, mae'n rhy gynnar i wybod a fydd hyn yn dylanwadu ar ein cynigion. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y cynigion ac yn ymgysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru ar y mater hwn.

Adran 1: Cefn Coch i Langynyw

-  Terfynau gorchymyn arfaethedig
-  Lleoliad arfaethedig y peilonau
-  Llinell ganol arfaethedig y peilonau
-  Cebll tanddaearol arfaethedig
-  Compowndau adeiladu dros dro

Adrannau Llwybr

-  **Adran 1:**
Cefn Coch i Langynyw
-  **Adran 2:**
Llangynyw i Feifod
-  Coridor y Llwybr a Ffafiwyd yn Flaenorol
-  Ffyrdd Mynediad (egin bychain o'r Llwybr)
-  Is-orsaf Grug y Mynydd Compowndau Adeiladu a Dros Dro
-  Llwybro cebllau tanddaearol drwy Parc Ynni Llyn Lort arfaethedig
-  Compownd selio pen cebll
-  Ardal ddraenio bosibl



Adran 2: Llangynyw i Feifod

Mae'r ardal hon yn newid o'r ardaloedd coetirool sy'n rhan o ddyffryn ehangach Afan Banw, i dirlun serth Dyffryn Efyrynwy, sy'n fwy cul ond sydd hefyd yn fwy agored yn weledol, gydag Afon Efyrynwy yn ymdroelli ar hyd llawr y dyffryn. Ochr yn ochr â phentrefi Llangynyw a Meifod, ceir safleoedd gwyliau yn yr ardal. Mae Mathrafal yn safle treftadaeth cydnabyddedig, ac mae ardaloedd ecolegol bwysig ar wasgar ar draws y dirwedd. Ystyriwyd yr holl nodweddion hyn wrth ddatblygu'r aliniad.

Eich adborth mewn perthynas â'r ardal hon

Roedd eich adborth yn tynnu sylw at Fathrafal, gan nodi ei bwysigrwydd hanesyddol, a Fferm Mathrafal, fel safle ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol. Ystyrir bod y ddau yn bwysig i'r ardal.

Fe wnaethoch chi hefyd roi sylwadau am leoliad Dyffryn Meifod, lle mae'r dyffryn yn wastad a lle mae Afon Efyrynwy ac Afon Banw yn dod at ei gilydd. Ystyriwyd bod hyn yn amwynder gweledol gwych i'r ardal.

Yn ogystal, nodwyd pwysigrwydd pentref Meifod a'r adeiladau rhestredig yn yr ardal ac o'i chwmpas, gan gynnwys yr eglwys. Nodwyd yr ardal hon ar gyfer gweithgareddau hamdden hefyd, gan gynnwys Ffordd Glyndŵr a Chlwb Rygbi Cobra. Roedd coetir hynafol a bywyd gwylt, gan gynnwys ystlumod, hefyd yn bwytiau pwysig i'w hystyried yn eich barn chi. Nodwyd symudiad yr afon a'r posibilrwydd o lifogydd hefyd, ac yr oeddech am i ni ystyried hyn.

Roedd yr adborth hefyd yn nodi bod National Grid wedi cynnig gosod ceblau o dan y ddaear yn yr ardal hon yn y gorffennol. Roeddech chi am i ni ystyried hyn, neu feddwl yn ofalus am leoliadau'r peilonau, er mwyn lleihau'r effeithiau ar y nodweddion a oedd yn bwysig yn eich barn chi.

Nododd pobl hefyd gynigion Cyfoeth Naturiol Cymru i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd yng Nghymru yn seiliedig ar Dirwedd Genedlaethol bresennol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, a gofynnwyd a fyddai hyn yn cael ei ystyried wrth ddatblygu'r cysylltiad.

Aliniad y llwybr

Mae'r llwybr yma wedi cael ei newid i fod ymhellach i ffwrdd o safle treftadaeth Mathrafal ac rydym wedi meddwl yn ofalus am leoliad y peilonau er mwyn cadw'r effeithiau gweledol mor isel ag y gallwn.

Mae'r aliniad yn cadw at gyfres o linellau syth, cymaint â phosibl, gan fod hyn yn helpu i gadw nifer y peilonau mor isel â phosibl. Ystyriwyd anheddau ac adeiladau unigol, tirwedd y dyffryn, a llwybr yr afon wrth ddewis lleoliadau'r peilonau.

Wrth i'r aliniad basio ger Meifod, rydym wedi mynd i'r de o'r afon, gan ystyried yn ofalus y clwb rygbi a'r amddiffynfeydd rhag lifogydd yn yr ardal hon. Dylai golygfeydd o bentref Meifod weld y peilonau yn erbyn waliau'r dyffryn, gan helpu i leihau'r effeithiau gweledol posibl.

Roedd cynigion y National Grid ar gyfer cysylltiad 400 kV, sydd angen peilonau talach na'r peilonau rydym ni'n

Rhagor o wybodaeth

Edrychwch
ar y llwybr
ar ein







eu cynnig. Arweiniodd yr asesiad o'r effeithiau gweledol at y National Grid yn cynnig gosod rhan o'r llwybr o dan y ddaear.






Rydym hefyd wedi asesu effeithiau gweledol y peilonau delltwaith rydym yn bwriadu eu defnyddio ar y dirwedd a chymunedau lleol. Ar sail yr asesiadau hyn, rydym wedi dod i'r casgliad bod llinell uwchben yn cyd-fynd â'n dyletswyddau o ran amwynderau a'r amgylchedd, a gofynion y datganiadau polisi cenedlaethol perthnasol sy'n nodi safbwynt y llywodraeth ar rwydweithiau trydan newydd.


Rydym yn ymwybodol bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgynghori ar gynigion i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd yng Nghymru yn seiliedig ar Dirwedd Genedlaethol bresennol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Ardal chwilio wedi'i nodi sy'n ymestyn yn agos at ran o Ddyffryn Efyrynwy. Mae Parciau Cenedlaethol a'u lleoliadau yn ystyriaethau pwysig wrth lwybro llinellau uwchben. Fel y cynnig ar gyfer y Gogledd Ddwyrain Mae Parc Cenedlaethol Cymru yn dal i fynd rhagddo mae'n rhy gynnar i wybod a fydd hyn dylanwadu ar ein cynigion. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y cynigion ac yn ymgysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru ar y mater hwn.

Adran 2: Llangynyw i Feifod

-  Terfynau gorchymyn arfaethedig
-  Lleoliad arfaethedig y peilonau
-  Llinell ganol arfaethedig y peilonau
-  Compowndau adeiladu dros dro

Adrannau Llwybr

-  **Adran 1:**
Cefn Coch i Langynyw
-  **Adran 2:**
Llangynyw i Feifod
-  **Adran 3:**
Meifod i Lansantffraid-ym-Mechain
-  Coridor y Llwybr a Ffatriwyd yn Flaenorol
-  Ffyrdd Mynediad (egin bychain o'r Llwybr)



Adran 3: Meifod i Lansantffraid-ym-Mechain

Mae'r rhan hon o'r llwybr yn cynnwys rhai safleoedd hanesyddol, coetiroedd ac ardaloedd sy'n cael eu gwerthfawrogi am fioamrywiaeth. Meifod a Llansantffraid yw'r cymunedau mwyaf amlwg, gydag anheddau unigol wedi'u gwasgaru ledled yr ardal. Mae gwaelod y dyffryn wedi'i nodweddu gan lwybr troellog Afon Efyrynwy, ac ochrau'r dyffryn, sy'n serth mewn mannau ac sy'n cynnwys ardaloedd o goetir. I'r gogledd-ddwyrain o Feifod, mae'r dyffryn yn eithaf llydan a gwastad gan ei fod yn gyfochrog â'r A495, cyn troi'n fwy cul a thonnog ger Waen Fach. Mae'r ardal ger Llansantffraid yn cynnwys mwy o aneddiadau. Ystyriwyd yr holl nodweddion hyn wrth ddatblygu'r aliniad.

Eich adborth mewn perthynas â'r ardal hon

Nodwyd bod Llansantffraid yn bwysig, ac roeddech am i ni ystyried lleoliad y peilonau'n ofalus a'u heffeithiau posibl ar olygfeydd ac eiddo unigol.

Nodwyd bod y parciau carafán ger Llansantffraid yn bwysig i'r economi leol a gofynasoch i ni ystyried y rhain. Dywedodd pobl hefyd fod ardaloedd hamdden, megis llwybrau troed ar hyd dyffryn yr afon, yn cael eu defnyddio'n helaeth a dylid eu hystyried.

Tynnwyd sylw at weithrediadau ffermydd ac adeiladau fferm ar hyd y llwybr a ffafrir, a dywedasoch y dylem osgoi tarfu ar y rhain lle mae hynny'n bosibl.

Aliniad y llwybr

Mae'r llwybr wedi cael ei newid yma i gymryd aliniad mwy syth, gan ei symud oddi wrth y gweithrediadau fferm a nodwyd yn yr adborth, ac ychydig yn nes at yr A495.

Mae'r llwybr syth yn helpu i leihau nifer y peilonau sydd eu hangen, felly dylai fod yn llai amlwg yn weledol. Mae'r aliniad hwn yn darparu cyfleoedd ar gyfer defnyddio coed at ddiben sgrinio neu fel cefnlen ar gyfer peilonau yn yr ardal.

Mae hefyd yn darparu cyfleoedd i reoli effeithiau gweledol posibl ar y safleoedd treftadaeth gerllaw, gan gynnwys y fryngaer yng Nghoedwig Bryngwyn.





Wrth i'r aliniad nesáu at Lansantffraid, mae lleoliadau'r peilonau wedi cael eu cynllunio i gadw'r effeithiau gweledol mor isel ag y gallwn ar eiddo, ar yr un pryd â rheoli'r effeithiau posibl ar yr afon a gweithrediadau amaethyddol. Rydym yn parhau i ddefnyddio aliniadau syth wrth fynd i mewn i'r pentref, ac wrth fynd heibio iddo, gyda'r nod o ddefnyddio cyn lleied o beilonau â phosibl. Mae'r aliniad yn aros yn agos at yr ardal fasnachol i'r de o'r A495, gyda'r nod o leihau'r effeithiau ar eiddo preswyl. Wrth i'r aliniad ymestyn tua'r dwyrain, rydym wedi ystyried lleoliadau eiddo unigol a'r parciau carafanau, gan ddefnyddio coed i sgrinio, lle bo hynny'n bosibl.

Rhagor o wybodaeth






Edrychwch
ar y llwybr
ar ein gwefan




Adran 3: Meifod i Lansantffraid-ym-Mechain

-  Terfynau gorchymyn arfaethedig
-  Lleoliad arfaethedig y peilonau
-  Llinell ganol arfaethedig y peilonau
-  Compowndau adeiladu dros dro

Adrannau Llwybr

-  **Adran 2:**
Llangynyw i Feifod
-  **Adran 3:**
Meifod i Lansantffraid-ym-Mechain
-  **Adran 4:**
Llansantffraid-ym-Mechain i Lanymynech
-  Coridor y Llwybr a Ffafiwyd yn Flaenorol
-  Ffyrdd Mynediad (egin bychain o'r Llwybr)



Adran 4:

Llansantffraid-ym-Mechain i Lanymynech

Mae'r ardal hon yn cynnwys pentrefi Llanymynech, Llandysilio a Four Crosses, rhai aneddiadau preswyl, safleoedd treftadaeth diwylliannol, a darnau bach o goetir hynafol. Mae'r afon yn ymdroelli ar draws llawr y dyffryn, a cheir safleoedd o ddiddordeb ar gyfer bioamrywiaeth ar hyd ei glannau. Mae Camlas Trefaldwyn yma'n nodwedd hamdden a threftadaeth gydnabyddedig, gyda Llwybr Clawdd Offa hefyd yn croesi'r ardal. Mae parciau carafanau sefydledig ar hyd Dyffryn Efyrynwy. Ystyriwyd yr holl nodweddion hyn wrth ddatblygu'r aliniad.

Eich adborth mewn perthynas â'r ardal hon

Rhoesoch sylwadau ar Gamlas Trefaldwyn, gan nodi ei gwerth hamdden a'i phwysigrwydd amgylcheddol. Roeddech chi am i ni ystyried lleoliad y gamlas a'r effeithiau gweledol posibl o osod llinell uwchben.

Dywedasoch wrthym y dylem ystyried Llandysilio a'r eglwys restredig gradd dau yn y pentref, gan ofyn i ni edrych yn ofalus ar yr effeithiau posibl ar osodiad y pentref.

Nodwyd hefyd bod yr effeithiau posibl ar bentrefi Llanymynech, Pant a Four Crosses, ac anheddau gwasgaredig, yn bwysig a dywedasoch y dylem wneud yr hyn a allwn i gadw'r effeithiau gweledol mor isel â phosibl.

Nodwyd y parciau carafanau i'r dwyrain o Lansantffraid hefyd fel rhai pwysig, ynghyd â Llwybrau troed yn yr ardal hon. Nodwyd bod twristiaeth yn rhan allweddol o'r economi leol.

Aliniad y llwybr

Mae'r llwybr wedi cael ei newid yn y rhan hon er mwyn lleihau'r effeithiau posibl ar Landysilio, ac Eglwys Sant Tysilio, ac adeiladau rhestredig eraill gerllaw.

Er bod y newid hwn yn dod â'r aliniad yn nes at Ardal Treftadaeth Llanymynech, gan gynnwys y gamlas, rydym o'r farn bod digon o bellter rhwng yr aliniad i'r de a'r ardal dreftadaeth i'r gogledd, i gynnal y lleoliad.

Mae'r aliniad yn y rhan hon yn defnyddio darnau byr o linellau syth, gan helpu i gadw nifer y peilonau mor isel â phosibl, sy'n lleihau effeithiau gweledol, gan geisio osgoi anheddau unigol ar yr un pryd.

Mae'n croesi rhan lai agored o'r dyffryn ger Carreghwfa ac i'r gogledd o draphont Camlas Trefaldwyn, lle bydd y coetir presennol yn darparu rhywfaint o sgrinio i leihau'r effeithiau gweledol.


Dewiswyd lleoliadau'r peilonau gan ddefnyddio coed at ddiben sgrinio, ac ystyriwyd llwybr yr afon.

Rhagor o wybodaeth

Edrychwch ar y llwybr ar ein gwefan



Adran 4: Llansantffraid-ym-Mechain i Lanymynech



Adran 5:

Llanymynech i Lower Frankton

Yn yr ardal hon, mae'r dirwedd yn agor i ardal ehangach sy'n isel yn gyffredinol, gyda choed, pentrefi ac anheddau unigol ar wasgar drwy'r cyfan. Mae nodweddion treftadaeth ar wasgar yn yr ardal, gan gynnwys henebion rhestredig, ardaloedd cadwraeth, adeiladau rhestredig, ac ardaloedd o barcdir hanesyddol. Mae safle Ramsar Midlands Mere and Mosses yn cael ei gydnabod fel gwlyptir pwysig, gydag ardaloedd bach o fawndir hefyd yn yr ardal. Ystyriwyd yr holl nodweddion hyn wrth ddatblygu'r aliniad.

Eich adborth mewn perthynas â'r ardal hon

Dywedasoeh y dylid ystyried lleoliad y pentrefi yn yr ardal hon yn ofalus, er mwyn lleihau'r effeithiau gweledol posibl. Roedd hyn yn cynnwys Pant, Crickheath, Maesbrook a Maesbury Marsh. Roedd pobl o'r farn bod opsiynau ar gael i droi'r llwybr i ffwrdd o gyfeiriad y pentrefi, i dir fferm agored. Cafodd effeithiau posibl ar eiddo unigol hefyd eu cynnwys yn yr adborth hwn.

Nodwyd llwybr Camlas Trefaldwyn hefyd, a nodwyd bod y gwaith adfer wedi gwneud hwn yn ardal werthfawr i gymunedau ac ymwelwyr.

Nodwyd bywyd gwyllt ledled yr ardal hefyd, gan gynnwys tylluanod, gleision y dorlan, dyfrgwn ac ystlumod, a gofynasoch i ni ystyried yr effeithiau ar fywyd gwyllt yn ofalus.

Dywedasoeh y dylem hefyd ystyried busnesau a gweithrediadau amaethyddol, gan feddwl am leoliad adeiladau, mynedfeydd ffermydd, ac agweddau pwysig eraill wrth gynllunio'r aliniad.

Roedd pobl hefyd eisiau gwybod mwy am leoliad is-orsaf arfaethedig y National Grid a lle byddai hon yn cael ei lleoli.

Aliniad y llwybr

Rydym ni wedi diweddarau'r llwybr yn y rhan hon i fod ymhellach i ffwrdd o Bant a Crickheath. Er y gallai hyn greu rhywfaint o amlygrwydd i'r cysylltiad o dir uwch Llanymynech, rydym o'r farn y bydd yn lleihau'r effeithiau gweledol posibl ar Bant, Crickheath a Chamlas Trefaldwyn.

Mae'r aliniad yn y rhan hon yn defnyddio darnau byr o linellau syth, gan helpu i gadw nifer y peilonau mor isel â phosibl, sy'n lleihau effeithiau gweledol, gan geisio osgoi anheddau unigol ar yr un pryd.

Drwy gydol yr aliniad, rydym wedi ceisio defnyddio coed sy'n bodoli eisoes at ddiben sgrinio, lle bo hynny'n bosibl, ar yr un pryd ag ystyried gweithrediadau amaethyddol.

Cysylltiad â rhwydwaith trydan cenedlaethol





Mae y Grid Cenedlaethol wedi gweithio gyda ni i nodi ardal lle gallent adeiladu is-orsaf 400 kV newydd a fyddai'n hwyluso ein cysylltiad â'r grid. O fewn yr ardal a nodwyd, rydym yn rhagweld y bydd y Grid Cenedlaethol yn datblygu cynlluniau ar gyfer yr is-orsaf 400 kV arfaethedig, ac ar wahân, byddwn yn datblygu ein gorsaf newid 132 kV arfaethedig.

Rhagor o wybodaeth



Edrychwch ar y llwybr ar ein gwefan





Adran 5: Llanymynech i Lower Frankton

-  Terfynau gorchymyn arfaethedig
-  Lleoliad arfaethedig y peilonau
-  Llinell ganol arfaethedig y peilonau
-  Compowndau adeiladu dros dro


Adranau Llwybr

-  **Adran 4:**
Llansantffraid-ym-Mechain i Lanymynech
-  **Adran 5:**
Llanymynech i Lower Frankton

 Lleoliad Posibl ar gyfer Is-orsaf y Grid Cenedlaethol, Gorsaf Gyfnewid GGC, Ardaloedd Adeiladu a Gwaith Dros Dro

 Coridor y Llwybr a Ffafiwyd yn Flaenorol

 Ffyrdd Mynediad (egin bychain o'r Llwybr)



Dyluniad y peilonau – beth rydym ni'n ei adeiladu

Mae'r peilonau yn yr aliniad yn cynnig uchder cyfartalog o 28.5 metr. Dyma'r peilonau delltwaith lleiaf sydd ar gael i ni i drosglwyddo'r cyfanswm pŵer sy'n cael ei gynhyrchu.

Wrth ystyried yr amgylchedd lleol, fel y dirwedd, topograffeg a choetir, a'r gofynion polisi ar gyfer llinellau uwchben, credwn mai'r dyluniad peilon hwn sy'n cynnig y datrysiad mwyaf priodol.

O ystyried uchder a dyluniad y peilon hwn, byddai coed a nodweddion tirwedd eraill yn cynnig cyfleoedd sgrinio. Ynghyd â llwybro gofalus, maent yn cynnig cyfle i reoli effeithiau gweledol.

Mae'r aliniad presennol yn cynnwys o ddeutu 171 o beilonau.

Prif nodweddion peilonau delltwaith:

- Technoleg sydd wedi'i phrofi, sydd i'w gweld mewn cymunedau ledled y DU
- Wedi'u dylunio i fod yn dryloyw, gan helpu i leihau effeithiau gweledol
- Addas ar gyfer tirweddau tonnog caeedig, gan y byddai'r bryniau'n gweithredu fel cefndir, gyda llai o'r peilon yn cael ei weld uwchben y nenlinell
- Gallu gwrthsefyll amodau tywydd eithafol, fel gwyntoedd cryf a rhew yn ffurfio ar y dargludyddion
- Maent yn bodoli mewn gorlifdiroedd ledled y wlad a byddwn yn sicrhau ein bod yn defnyddio dulliau adeiladu priodol yn yr ardaloedd sensitif hyn

Trafnidiaeth yn ystod y gwaith adeiladu

Most of the equipment we would need, including the Byddai'r rhan fwyaf o'r cyfarpar y byddai ei angen arnom, gan gynnwys y cydrannau ar gyfer y cysylltiad, craeniau i adeiladu'r cysylltiad, a'r holl ddeunyddiau ar gyfer gwaith dros dro (fel compowndau gwaith a ffyrdd mynediad) yn cael eu cludo ar lorïau confensiynol. Byddem hefyd angen faniau a cheir i gludo gweithwyr i'r safle ac oddi yno, ac rydym yn rhagweld y bydd angen rhai cerbydau mwy i gario offer.

Er mwyn nodi llwybrau trafndiaeth, rydym ni wedi ystyried y ffordd orau o leihau'r effeithiau ar ddefnyddwyr y ffyrdd, gan gynnwys pobl leol a thwristiaid. Rydym yn cynnig defnyddio'r A483 a'r A495

gan mai dyma'r prif ffyrdd sydd agosaf at ein gwaith, yn ogystal â llawer o'r ffyrdd llai oddi ar y prif ffyrdd, i gyrraedd yr ardaloedd adeiladu.

Adeiladu'r cysylltiad

Bydd yn cymryd tua dwy flynedd i adeiladu a phrofi'r cysylltiad, gydag amser ychwanegol i adfer y tir a'i ddychwelyd i'w ddefnydd blaenorol. Ar unrhyw un adeg, mae'n debygol y bydd nifer o rannau gweithredol ar hyd y llwybr.

Mae ein gwaith fel arfer yn digwydd fesul cam. Byddai pob elfen o'r prosiect yn cael ei hadeiladu yn dilyn pedwar prif gam.

Fel arfer, byddem yn gwneud y canlynol:

- Sefydlu safleoedd adeiladu, drwy lefelu'r tir a gosod compowndau gwaith a ffyrdd mynediad o nifer o ffyrdd cyhoeddus
- Adeiladu'r cysylltiad
- Profi'r holl offer gan sicrhau ei fod wedi'i adeiladu'n gywir cyn ei wneud yn fyw ar foltedd uchel
- Clirio ac ailosod y tir, a cheisio plannu planhigion ychwanegol i sgrinio offer lle bo angen



Adeiladu

Ein Hoffer

Mae cysylltiadau llinellau uwchben yn cynnwys gwifrau (a elwir yn ddargludyddion) sy'n cael eu cefnogi gan beilonau. Mae'r llinell yn cario dwy gylched drydanol, un ar bob ochr i'r peilonau.

Sefydlu'r safleoedd

- Byddwn yn gosod ffyrdd mynediad dros dro i leoliadau peilonau ar hyd y llwybr, y gellid eu gwneud gan ddefnyddio cerrig neu fatiau. Efallai y bydd angen i ni wneud addasiadau i'r ffyrdd presennol, fel lledu'r mynedfeydd presennol i gaeau.
- Sefydlu'r compowndau gwaith, a fyddai'n cynnwys cyfleusterau ar gyfer gweithwyr, swyddfeydd safle, manau storio deunyddiau a manau parcio ar gyfer gweithwyr a cherbydau adeiladu.
- Er diogelwch, byddwn yn clirio neu docio coed a allai amharu ar ddargludyddion byw.

Adeiladu

- Creu arwyneb gwastad ar gyfer safleoedd adeiladu peilonau.
- Cloddio ac adeiladu'r sylfeini.
- Cludo cydrannau'r peilonau ac adeiladu'r peilonau gan ddefnyddio craeniau.
- Cludo ynysyddion a dargludyddion ar ddrymiau.

Ar ôl adeiladu

- Profi offer a gwneud yn siŵr ei fod wedi'i osod yn gywir ac yn ddiogel.
- Adfer y tir sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer ein gwaith dros dro, er mwyn iddo allu dychwelyd i'w ddefnydd blaenorol, a sgrinio er mwyn lleihau effeithiau gweledol a disodli cynefinoedd a allai fod wedi cael eu colli yn ystod y cam adeiladu os bydd angen.

Is-orsaf Gasglu Grug y Mynydd

Swyddogaeth yr is-orsaf yw 'casglu' pŵer o'r parciau ynni arfaethedig, ac yna trawsnewid y foltedd sydd ei angen ar gyfer trawsyrru. Byddai'r is-orsaf hefyd yn cynnwys cyfnewidydd trydanol ar ddwy ochr y newidyddion, sy'n ein galluogi i gynnal a chadw a gweithredu'r offer yn ddiogel ac yn ddibynadwy.

Byddai Is-orsaf Gasglu Grug y Mynydd oddeutu 250m x 150m, a 13m o uchder, gyda phlanhigion naturiol yn cael eu defnyddio i sgrinio'r safle.

Compownd pen selio cebl

Bydd compownd pen selio cebl Cors y Garreg (CESC) yn cynnwys ardal o tua 80m x 50m, ac yn cynnwys offer foltedd uchel sydd wedi'i ddylunio i hwyluso'r broses o bontio rhwng ceblau o dan y ddaear a dargludyddion uwchben. Bydd y compownd yn cael ei amgylchynu gan ffensys diogelwch hyd at 4m o uchder i ddiogelu'r offer.

Bydd llystyfiant yn ardaloedd gwaith compownd terfyn pen cebl Cors y Garreg yn cael ei glirio lle bo angen, a bydd ffensys yn cael eu gosod i amgau'r safle. Bydd haenau uchaf y pridd yn cael eu tynnu a'u storio'n briodol. Bydd ffordd fynediad barhaol yn cysylltu'r compownd â'r rhwydwaith ffyrdd lleol, gan sicrhau mynediad ar gyfer gweithgareddau gweithredol a chynnal a chadw.



Ffiniau'r prosiect

Pan fyddwn yn cyflwyno ein ceisiadau am ganiatâd, bydd angen i ni gynnwys yr holl dir sydd ei angen arnom.

Bydd hyn yn cynnwys seilwaith parhaol, fel peilonau. Bydd hefyd yn cynnwys gwaith dros dro fel ffyrdd mynediad, compowndau gwaith a safleoedd adeiladu o amgylch ein seilwaith. Mae hyn yn golygu na fydd gan yr holl dir sydd wedi'i gynnwys yn ein ceisiadau seilwaith parhaol arno.

Oherwydd natur gymhleth ein gwaith, yn aml mae llawer o agweddau sy'n rhan o'n cais, gan gynnwys:

- Peilonau
- Mannau gollwng a gweithio, gan gynnwys o amgylch pob peilon
- Baw wedi'i gloddio a lleoliadau ar gyfer storio a gwaredu pridd
- Compowndau pen selio cebl, gan gynnwys nenbontydd
- Unrhyw waith dros dro, gan gynnwys compowndau gwaith (cabanau lles a diogelwch a meysydd parcio), lefelu'r tir, ffensio, sgaffaldio, craeniau, pyst marcio ac arwyddion
- Ffyrdd mynediad dros dro o lwybrau cyhoeddus. Byddant yn cael eu symud ar ôl y gwaith adeiladu a bydd y tir yn cael ei ddychwelyd i'w gyflwr gwreiddiol
- Addasiadau i ffyrdd, rheoli traffig, gan gynnwys gwyradau ffordd ac unrhyw gau dros dro
- Gwelliannau parhaol a dros dro i ffyrdd cyhoeddus
- Plannu oddi ar y safle a thynnu llystyfiant
- Gwyradau cyfleustodau a gwaith draenio
- Unrhyw fesurau diogelu a lliniaru amgylcheddol
- Coed yr effeithir arnynt
- Goleuadau
- Cyfarpar monitro, gan gynnwys monitro ansawdd dŵr

Mae ffin sydd wedi ystyried yr holl elfennau amrywiol hyn wedi cael ei datblygu a'i dangos ar gynlluniau sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn. Cyfeirir at hyn fel arfer fel 'ffin prosiect arfaethedig' neu 'ffin llinell goch'. Mae'n dangos yr holl ardal yr ydym yn bwriadu gwneud gwaith ynddi, dros dro ac yn parhaol.

Mae'n rhaid i'r ffin hefyd gynnwys yr holl dir lle mae angen mynediad ar gyfer adeiladu a gweithredu'r cysylltiad.

O ganlyniad i'r gwahanol elfennau y mae angen i ni eu cynnwys, efallai y bydd ffin arfaethedig y prosiect yn ymddangos yn afreolaidd ac, mewn rhai ardaloedd, yn ymestyn ymhellach o'r lleoliadau arfaethedig ar gyfer cysylltiadau neu offer parhaol. Mae'r ffin hon yn dangos y manau a allai gael eu defnyddio, er na fydd yr holl elfennau ynddi o reidrwydd yn cael eu defnyddio.



Darparu adborth

Gallwch ddylanwadu ar ein cynigion o hyd, a hoffem gael eich adborth er mwyn i ni allu parhau i edrych ar ffyrdd o gadw'r effeithiau mor isel â phosibl. Dywedwch wrthym a oes unrhyw newidiadau y credwch y gallwn eu gwneud i wella ein cynigion neu i leihau'r effeithiau ac, yn bwysicaf oll, pam.

Rydym yn gofyn am sylwadau ar ein holl gynigion, gan gynnwys:

- Is-orsaf gasglu 132 kV newydd ger Cefn Coch, Powys, a elwir yn is-orsaf Grug y Mynydd
- Tua 4.8km o gebl tanddaearol o is-orsaf Grug y Mynydd trwy Barc Ynni Arfaethedig Llyn Lort i gompownd selio pen cebl yng Nghors y Carreg
- Byddai compownd selio pen cebl Cors y Carreg yn galluogi pontio rhwng ceblau tanddaearol a dargludyddion uwchben
- Tua 45km o linell newydd uwchben a gynhelir ar beilonau rhwylllog dur L7(c) (uchder cyfartalog o 28.5m) o gompownd selio pen cebl yng Nghors y Carreg i orsaf gyfnewid newydd
- Gorsaf gyfnewid ger Lower Frankton, Swydd Amwythig sy'n caniatáu i'r pŵer gael ei ynysu o is-orsaf posib newydd sy'n cael ei datblygu gan y Grid Cenedlaethol i gysylltu â'r system drawsyrnu trydan cenedlaethol 400kV bresennol
- Tir y bydd ei angen ar gyfer mesurau lliniaru amgylcheddol, iawndal a gwella

Yn ogystal â'r seilwaith parhaol, byddai angen tir dros dro hefyd ar gyfer gweithgareddau adeiladu, gan gynnwys, er enghraifft, manau gweithio ar gyfer offer a pheiriannau adeiladu, swyddfeydd safle, lles, storio a mynediad dros dro ar gyfer gwaith adeiladu.

Byddai angen dargyfeiriadau a / neu addasiadau o gyfleustodau trydydd parti hefyd i hwyluso'r gwaith o adeiladu'r Prosiect.

Mae sawl ffordd o ddarparu adborth ar y prosiect.

- Ffurflen adborth ar-lein ar ein gwefan: <https://greengenvyrnwyfrankton.com/cy/>
- Copi caled o'r ffurflen adborth, sydd ar gael mewn digwyddiadau ymgynghori neu ar gais
- Anfon neges e-bost i: info@greengenvyrnwyfrankton.com
- Anfon adborth ysgrifenedig i: **FREEPOST GREEN GEN CYMRU VF**

Dim ond adborth am gynigion y gallwn ei ystyried, ac nid themâu ehangach fel cynhyrchu ynni na pholisïau'r llywodraeth.

Rhowch adborth am ein cynigion yn unig. Po fwyaf o fanylion y gallwch eu darparu, y gorau y gallwn ddeall effeithiau posibl ein gwaith.

Cyflwynwch eich adborth i ni erbyn 23:59 ddydd Mercher 16 Ebrill 2025.

Mae'n bosib na fydd unrhyw adborth a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael ei ystyried gan ein tîm. Bydd yr holl adborth a gawn yn cael ei adolygu a'i ystyried yn ofalus wrth i ni ddatblygu a chyflwyno ein cynlluniau.



Lleoliad	Dyddiad	Amser
Neuadd Bentref West Felton , Holyhead Road, West Felton, Croesoswallt, Swydd Amwythig, SY11 4EH	Dydd Iau 27 Chwefror	14:00 - 19:00
Neuadd Bentref Hordley a Bagley , Lower Hordley, Ellesmere, Shropshire, SY12 9BQ	Dydd Gwener 28 Chwefror	14:00 - 19:00
Neuadd Bentref Llanymynech , Station Road, Llanymynech, Croesoswallt, Swydd Amwythig, SY22 6EE	Dydd Sadwrn 1 Mawrth	10:00 - 15:00
Neuadd Gyhoeddus ac Institiwt Llanfair Caereinion , Stryd y Bont, Llanfair Caereinion, Y Trallwng, SY21 0RY	Dydd Iau 6 Mawrth	14:00 - 19:00
Canolfan Gymunedol Llansantffraid , Treflan, Llansantffraid-Ym-Mechain, SY22 6AE	Dydd Gwener 7 Mawrth	14:00 - 19:00
Neuadd Bentref Meifod Canolfan Gymunedol , Meifod, SY22 6DF	Dydd Sadwrn 8 Mawrth	10:00 - 15:00

Gwybodaeth i gefnogi'r ymgynghoriad

Mae'r holl ddogfennau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn ar gael i'w gweld ar ein gwefan: www.greengenvyrnwyfrankton.com

- Datganiad o Ymgynghori Cymunedol
- Adroddiad Adborth Ymgynghori Anstatudol 2023
- Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol
- Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol – Atodiadau
- Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol – Ffigurau
- Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol – Crynodeb Annhechnegol
- Cynllun Lleoliad
- Cynlluniau Ymgynghori
- Darluniau Tŵr a Sylfaen nodweddiadol
- Adeiladwaith Gosodiadau Nodweddiadol
- Cynlluniau Safle Dangosol
- Strategaeth Cysylltu â Grid
- Dogfen Aliniad Llwybr
- Arweiniad i'r Cynlluniau



Camau nesaf

Ar ôl yr ymgynghoriad, er mwyn symud ymlaen tuag at ein ceisiadau, byddwn yn:

- Adolygu ein cynigion yng ngoleuni'r adborth a gafwyd a'n hasesiadau parhaus i weld a oes ffyrdd y gallwn eu gwella.
- Ystyried sut gellid gwneud y gwaith trafndiaeth ac adeiladu ac edrych ar gyfleoedd i leihau effeithiau hyn ar yr ardal, gan gynnwys eiddo, busnesau a hamdden. Byddai hyn yn cynnwys y ffordd orau o reoli cau ffyrdd posibl o amgylch rhan tanddaearol y llwybr. Byddem bob amser yn sicrhau bod modd cael mynediad at eiddo yn ystod y gwaith adeiladu.
- Cwblhau'r gofynion ar gyfer clirio coed a gwrychoedd a sut byddem yn rheoli effeithiau hyn, gan gynnwys gwaith adfer.
- Ystyried effaith weledol y cysylltiad i sefydlu pa fesurau lliniaru pellach y gallai fod eu hangen, a allai gynnwys tirweddau neu blannu i sgrinio offer.
- Edrych yn ofalus ar effeithiau amgylcheddol tebygol y cysylltiad arfaethedig ac a oes angen unrhyw fesurau lliniaru.

Ein ceisiadau

Pan fyddwn yn hapus bod y cynigion yn barod, byddwn yn paratoi ein ceisiadau a'r dogfennau ategol. Byddai hyn yn cynnwys Adroddiad Ymgynghori, i egluro sut rydym ni wedi ystyried eich safbwyntiau, a Datganiad Amgylcheddol, i egluro effeithiau amgylcheddol tebygol ein cynnig. Yna, byddem yn cyflwyno ein ceisiadau i'r cyrff perthnasol.

Ar y cam hwn, rydym yn rhagweld y bydd y ceisiadau am y cysylltiad yn cael eu cyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogeled Ynni a Sero Net drwy'r Arolygiaeth Gynllunio.

Mae'r broses gynllunio yn darparu rhagor o gyfleoedd i bobl gyflwyno eu sylwadau i'r cyrff sy'n penderfynu er mwyn gallu ystyried y rhain ochr yn ochr â'n ceisiadau. Byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth am y broses ymgeisio wrth i'n gwaith fynd rhagddo.

Llinell amser Vyrnwy Frankton

Medi – Ymgynghoriad cyhoeddus cyntaf

2023



Cyflwyno ein DCO ar gyfer adolygiad

2026



2025

Ail ymgynghoriad cyhoeddus a statudol



2027

Y dyddiad cynharaf y byddai'r cais yn cael ei benderfynu



Gwaith adeiladu'n dechrau os yw'r prosiect yn cael cydsyniad

2027



2029

Cysylltiad Vyrnwy Frankton yn weithredol





www.greengen.vyrnwyfrankton.com



info@greengen.vyrnwyfrankton.com



0800 915 3590



FREEPOST
GREEN GEN
CYMRU V2F

Rydym wedi defnyddio ffynonellau cynaliadwy ar gyfer cynhyrchu'r llyfryn hwn.